**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 6 Tachwedd 2001
**Amser:** 9am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Y Trefnydd
Elin Jones, Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol
David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (eitem 8 ar yr agenda)

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/Y Trefnydd
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

## 4 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

4.2 Cyhoeddodd y Dirprwy Lywydd y byddai Elin Jones yn cynrychioli Jocelyn Davies yn unol â Rheol Sefydlog 13.3.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

**(i) 23 Hydref 2001 - BC297-01 (Terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf derfynol a chytunwyd ar un newid bach. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

**(ii) 30 Hydref 2001 - BC314-01 (Drafft)**

2.2 Cyflwynwyd fersiwn ddrafft o'r cofnodion i'r Pwyllgor. Awgrymwyd newid bach a gâi ei gynnwys yn y fersiwn derfynol cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

## 3. Materion yn codi (30 Hydref 2001 - BC314-01)

3.1 **Paragraff 3.1** Dywedodd Nerys Arch bod fersiwn Gymraeg gyfun Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 2001 bellach wedi'u cwblhau a'u rhoi ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd ynghyd â'r fersiwn Saesneg.

3.2 **Paragraff 3.4** Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Cabinet yn cyfarfod yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.  Roedd yn gobeithio y byddent yn gallu ystyried mecanwaith ffurfiol er mwyn i'r Cabinet ymateb i adroddiadau pwyllgorau mewn Cyfarfodydd Llawn.  Nododd y Dirprwy Lywydd bod grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad hefyd yn ystyried y mater hwn.

3.3 **Paragraff 7.6** Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi ystyried y ffordd yr oedd Gweinidogion yn cyfathrebu ag Aelodau.  Câi datganiadau ffurfiol eu gwneud yn y Siambr.  Roeddynt hefyd yn cyfathrebu drwy e-bost os credent bod hynny o ddefnydd i'r Aelodau.  Dywedodd Marion Stapleton bod rhestr o ddatganiadau ysgrifenedig ar safle mewnrwyd y Cabinet.  Dywedodd Paul Silk mai datganiadau llafar yn unig a gâi eu cydnabod mewn Rheolau Sefydlog. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid ystyried yn ofalus y ffordd y câi cyhoeddiadau eu gwneud.  Byddai datganiad ffurfiol mewn Cyfarfod Llawn yn rhoi cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau.  Er hyn roedd yn amlwg bod lle i ddefnyddio ffyrdd eraill mwy anffurfiol o gyfathrebu.  Gallai Aelod nad oedd yn fodlon â'r ffordd y gwnaed cyhoeddiad fynd at y Llywydd i ofyn am gwestiwn brys dan Reol Sefydlog 6.31.

**<u>4. Is-ddeddfwriaeth</u>**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC307-01 hyd BC313-01 a oedd yn rhoi cyngor ynghylch ymdrin â'r eitemau is-ddeddfwriaeth drafft a ganlyn:

- **Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2001 (BC307-01)**
- **Rheoliadau Lliwiau Bwyd 2001 (BC308-01)**
- **Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Allanol) (Disgrifiad o Brofion) (Cymru) 2001 (BC309-01)**
- **Gorchymyn Addysg (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) (Rhoi Swyddogaeth) 2001 (BC310-01)**
- **Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001 (BC311-01)**
- **Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001 (BC312-01)**
- **Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001 (BC311-01)**

4.1 Nododd y Dirprwy Lywydd bod yr holl eitemau deddfwriaeth ddrafft hyn ar y fewnrwyd am y cyfnod y cytunwyd arno, sef deng diwrnod gwaith cyn i'r Pwyllgor eu hystyried.

4.2 BC307-01

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn hwn i bwyllgor pwnc ac y dylai ddilyn y weithdrefn gyflymach. Credai rhai Aelodau y byddai dadl yn ddefnyddiol a chytunwyd y dylai'r gorchymyn ddilyn y weithdrefn safonol. **Yn sgil hynny pennodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn i bwyllgor pwnc.**

4.3 BC308-01

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn i bwyllgor pwnc ac y dylai ddilyn y weithdrefn gyflymach, a chytunwyd ar hynny. Wrth ymateb i gwestiwn y Dirprwy Lywydd, cadarnhaodd Nerys Arch na ddylid bod wedi nodi ar y ddalen flaen bod ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda phwyllgor pwnc. Dywedodd Marie Knox y dylai unrhyw gyfeiriadau ar ddalennau blaen at ymgynghoriad â phwyllgor pwnc gynnwys dyddiad. **Yn sgil hynny pennodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn i bwyllgor pwnc.**

4.4 BC309-01 a BC310-01

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad nad oedd angen cyfeirio'r gorchmynion hyn i bwyllgor pwnc ac y dylent ddilyn y weithdrefn gyflymach, a chytunwyd ar hynny. **Yn sgil hynny pennodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchmynion hyn i bwyllgor pwnc.**

4.5 BC311-01; BC312-01 a BC313-01

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad nad oedd angen cyfeirio'r gorchmynion hyn i bwyllgor pwnc ac y dylent ddilyn y weithdrefn gyflymach. Roedd Aelodau o'r farn y dylent ddilyn y weithdrefn safonol. Gellid ymdrin â'r tri gorchymyn mewn un ddadl. **Yn sgil hynny pennodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchmynion hyn i bwyllgor pwnc.**

4.6Cyflwynodd David Lambert bapur yr oedd wedi'i ddosbarthu yn y cyfarfod a oedd yn amlygu nifer o anghysondebau yn y ffordd yr oedd y Memoranda Esboniadol ar gyfer deddfwriaeth ddrafft yn ymdrin â'r hyn a ddeilliodd o'r pwyllgorau pwnc wedi iddynt ystyried y ddeddfwriaeth. Dywedodd Marion Stapleton bod y dalennau blaen yn cael eu diwygio ar hyn o bryd er mwyn iddynt gyflwyno'r wybodaeth hon mewn ffordd glir a chyson. Dosbarthodd enghraifft o'r fformat newydd ac fe'i croesawyd gan y Pwyllgor. Dywedodd Nerys Arch bod y canllawiau hefyd yn cael eu diwygio i egluro'r gofynion. Byddai'r Pwyllgor yn gweld hyn ar waith yn ystod y mis nesaf.

4.7 Dosbarthodd Nerys Arch enghraifft o Fwletin Rheoliadau Sefydlog Cyffredinol. Roedd yn rhoi crynodeb o ddeddfwriaeth ddrafft gyffredinol y Cynulliad a oedd wrthi'n cael ei hystyried gan y Cynulliad. Eglurodd y byddai'r Bwletin ar gael ar y fewnrwyd ac y câi ei ddiweddaru bob dydd Llun erbyn 1pm. Croesawodd y Pwyllgor y fenter ddefnyddiol hon.

4.8 Nododd y Dirprwy Lywydd nad oedd "Rheoliadau Gwastraff Arbennig (Diwygio) (Cymru) 2001" ar gael ar y rhyngrwyd hyd 2 Tachwedd, wedi iddynt gael eu gwneud dan y Weithdrefn Weithredol ar 29 Hydref a dod i rym ar 1 Tachwedd. Felly nid oedd y 40 diwrnod gwaith statudol llawn ar gael i'r Aelodau ystyried yr offeryn a phenderfynu pa un a i gyflwyno cynnig diddymu. Gofynnodd David Lambert a barodd hynny nad oedd y cyhoedd yn gwybod am fodolaeth yr offeryn ar y diwrnod y daeth i rym. Dywedodd Nerys Arch y byddai'n ymchwilio i'r mater. **Gweithredu: Nerys Arch i adrodd wrth y Pwyllgor.**

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

- **Papur ar opsiynau am weithdrefn ar gyfer dadleuon brys (paratowyd gan Paul Silk) (BC305-01)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried y papur hwn am bythefnos i alluogi'r rheolwyr busnes i ymgynghori â grwpiau eu pleidiau. **Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i'w roi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 20 Tachwedd.**

## 6. Pwyllgorau

Dim.

## 7. Busnes ar y gweill

- **Busnes yr wythnos hon (BC316-01)**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC316-01 a oedd yn rhoi manylion busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnos honno.

7.2 Dywedodd y Trefnydd y byddai datganiad yn cael ei roi gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar "Strategaeth yr Henoed" yn ychwanegol at y busnes y cytunwyd arno ar gyfer y diwrnod hwnnw. Dywedodd bod dwy awr wedi'u neilltuo ar gyfer dadl ar Araith y Frenhines yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymateb i'r pwyntiau a gododd yn y ddadl cyn i Brif Weinidog Cymru gloi'r ddadl.

7.3 Dywedodd y Trefnydd bod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a drefnwyd ar gyfer dydd Iau eisoes wedi'i chynnal ac na ddylai fod wedi'i chynnwys yn y Datganiad Busnes. Er hyn, byddai'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn gwneud datganiad yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth yn ddiweddarach.

**Datganiad Busnes Drafft**

7.4 Bu’r Pwyllgor yn ystyried y datganiad busnes drafft (BC317-01).

7.5 Dywedodd y Trefnydd y byddai datganiad yn cael ei wneud gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lle’r ddadl ar Newid Strwythurol yn yr NHS a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 15 Tachwedd.

7.6 Dywedodd y Trefnydd bod y Gweinidog dros Addysg am fod yn rhan o ddirprwyaeth Gweinidogion y DU a oedd yn mynd i gyfarfod ym Mrwsel ar 29 Tachwedd. Roedd am i’r Pwyllgor Busnes symud ei chwestiynau llafar o 29 Tachwedd i 27 Tachwedd. Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd y Rheolau Sefydlog yn caniatáu i Ddirprwy Weinidogion gymryd lle Gweinidogion. Er hyn, gallai un o Weinidogion eraill y Cynulliad dderbyn y cwestiynau. Mynegodd William Graham anfodlonrwydd â’r cynnig oherwydd y dylai fod yn bosibl i’r Gweinidog drefnu i rywun arall ateb ei chwestiynau ar y diwrnod gwreiddiol. Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi cymryd lle Gweinidogion eraill ar ambell achlysur ond nad oedd hyn yn ddelfrydol am nad oes gan eilyddion wybodaeth gefndir i roi atebion mor effeithiol. Dywedodd Paul Silk y byddai gofyn gohirio Rheol Sefydlog 6.3A er mwyn gallu symud y cwestiynau i ddiwrnod gwahanol. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd am eglurhad ynghylch natur cyfarfod y Gweinidog ym Mrwsel. Cytunodd y Trefnydd i adrodd wrth Aelodau’r Pwyllgor cyn y Cyfarfod Llawn y diwrnod hwnnw. **Gweithredu: Y Trefnydd.**

7.7 Gofynnodd Elin Jones a oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer datganiad ar adeilad newydd y Cynulliad gan fod yr ymatebion i’r gwahoddiad am dendr wedi’u derbyn bellach. Dywedodd y Trefnydd bod y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y mater y bore hwnnw. Byddai’r Cabinet yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Archwilio maes o law.

7.8 Dywedodd y Pwyllgor wrth y Trefnydd y dylai trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau’n cychwyn ar ddydd Mawrth 13 Tachwedd, dydd Mawrth 20 Tachwedd a dydd Mawrth 27 Tachwedd 2001 fynd yn ei blaen yn unol â’r hyn y cytunwyd arno.

**<u>8. Materion a gyfeiriwyd o’r Cyfarfod Llawn</u>**

- **Adroddiad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Anuniongyrchol Aelodau (paratowyd gan Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol) (BC303-01)**

- **Adroddiad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Anuniongyrchol Aelodau (paratowyd gan y Pwyllgor Safonau) (BC251-01)**

8.1 Bu’r Pwyllgor yn ystyried papurau BC303-01 a BC251-01.

8.2 Croesawyd David Melding i’r cyfarfod gan y Dirprwy Lywydd. Roedd yn ddiolchgar bod y Pwyllgor Busnes wedi cael cyfle i roi sylwadau ar gynigion y Pwyllgor Safonau cyn i adroddiad gael ei roi i’r Cynulliad.

8.3 Cyflwynodd David Melding bapur BC251-01 a oedd yn cynnig newidiadau i Reol Sefydlog 4 a’r canllawiau perthnasol er mwyn egluro’r gofynion i

Aelodau gofrestru a datgan buddiannau anuniongyrchol.  Dywedodd bod y Pwyllgor Safonau wedi edrych ar y mater yn fanwl.  Casglodd y Pwyllgor hwnnw nad oedd modd cyfiawnhau'r syniad o fuddiant anuniongyrchol bellach ac y dylai bod gofyn i Aelodau gofrestru buddiannau eu priod a phlant sy'n ddibynnol arnynt.

8.4 Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod ganddo nifer o amheuon ynghylch newid mor fawr.  Efallai y byddai'n anodd i Aelod bennu a oedd gan briod neu blentyn dibynnol fuddiant perthnasol ac y gallai ymchwiliadau heddlu ddeillio o esgeulustod o'r fath.  Dywedodd David Melding y byddai'n rhaid i Aelod gymryd camau rhesymol i egluro'r gofynion wrth y rhai dan sylw.  Gofynnodd y Dirprwy Lywydd hefyd a fyddai'r cynlluniau'n creu anghysondeb newydd am na fyddai bellach gofyn cofrestru buddiannau plant dibynnol dros 16 na buddiannau perthnasau eraill a allai ddeillio o waith y Cynulliad.  Gwnaeth sylw hefyd ar fantais darpariaeth de minimis ac ar y galw am drothwyon synhwyrol o ran buddiannau ariannol.

8.5 Dywedodd Peter Black ei fod yn fodlon â'r cynnig o ran egwyddor.  Nododd bod rheolau awdurdodau lleol yn wahanol a gofynnodd am i Aelodau dderbyn arweiniad clir ynghylch unrhyw newid.  Dywedodd William Graham bod ei grwp ef wedi derbyn cyngor i gadw cofnod o'r hyn y caent ei gynnig a'r hyn yr oeddynt yn ei wrthod.  Awgrymodd ef hefyd weithdrefn de minimis bosibl yn seiliedig ar roi gwybod am esgeulustod a ddoi i'r amlwg.  Diolchodd David Melding i'r Pwyllgor am eu sylwadau a dywedodd y byddai yn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**<u>9.  Diwygio'r Rheloau Sefydlog</u>**

Dim

**<u>10. Dyfarniadau'r Llywydd</u>**

Dim

**<u>11. Unrhyw fater arall</u>**

11.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi derbyn cais i godi mater y ffrae am nad oedd Aelod o'r Cabinet yn bresennol yn ystod dadl mewn Cyfarfod Llawn yr wythnos ddiwethaf.  Dywedodd y Trefnydd bod hyn yn anffodus.  Fel arfer byddai ef neu Weinidogion eraill yn bresennol gydol y trafodaethau mewn Cyfarfod Llawn.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**